# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 14eg HYDREF 2025 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Siân Dafydd (cad), Harry Owen- Talysarn, Dafydd Thomas - Nebo, Barry Bracegirdle, Justin Davies, Erfyl Williams, Ceri Owen- Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn – Llanllyfni, Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** -Judith Humphreys - Penygroes, Gareth Jones, Nigel Williams – Talysarn.

2. **Datgan buddiant** - pwynt 10 Siân Dafydd - Ceisiadau cynllunio. Pwynt 7 a 11 Tesni Glyn - cais am arian gan Farchnad Nadolig Maes Awyr Caernarfon a gohebiaeth ynglŷn â thorri coed ger mynedfa Taldrwst. Pwynt 11 Justin Davies – cais Yr Orsaf i gyngor cymunedau am dir tyfu bwyd lleol.

3. **Cofnodion cyfarfod 9 Medi 2025** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **Materion pentrefi -** y clerc wedi derbyn map gan Gyngor Gwynedd er mwyn nodi iddynt ba olau stryd sydd ddim yn gweithio. Cytunodd Ceri Owen y buasai yn mynd i edrych a gadael i'r clerc wybod. Adroddwyd bod y materion eraill a godwyd gyda Chyngor Gwynedd y mis diwethaf wedi eu cwblhau. **Seddi Gwag -** Penygroes - derbyniwyd enw Celfyn Roberts ymlaen ar gyfer sedd wag Penygroes. Cytunodd pawb yn unfrydol â hyn a gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag o i'w wahodd i gyfarfod mis Tachwedd y cyngor. **Nantlle -** nid oedd enw wedi ei dderbyn hyd yn hyn.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Adroddodd Cyng. Thomas ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda chabinet Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater o gau ysgolion Bala Deulyn a Nebo ac roedd wedi adrodd wrthynt ei farn o ar y mater. Adroddodd hefyd bod y gwaith ar bont Lôn Cae Du yn Llanllyfni wedi dechrau erbyn hyn. Cododd Cyng. Thomas bryder fod cerbydau yn parcio mewn mannau peryglus a mannau na ddylent ar y strydoedd. Mae rhai yn parcio mewn mannu lle na all brigâd dân neu ambiwlans basio os fysa raid. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei waith.

6. **Materion Pentrefi** - **Llanllyfni -** llwybr Caer Engan - y stepiau yno wedi symud ac angen i rywun gael golwg arnynt. **Penygroes -** cerbydau yn parcio mewn mannu lle na ddylent a peryglus yn nhop y pentref a thrigolion yn bryderus. Awgrymwyd y dylid gofyn i warden traffic ddod allan i Benygroes a Llanllyfni ar ôl 6yh. Hefyd, cerbydau yn parcio yn y mannau gyda chyfyngiadau am fwy o amser na ddylent. Ffens wedi torri a'i llechio i'r ochr ger safle Wynnstay sydd yn beryglus. **Nebo -** cyfarfod wedi ei gynnal gyda swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd i geisio sortio problemau gyda llwybrau sydd wedi gordyfu neu wedi eu hatal yn yr ardal. Lloches bws Nasareth wedi ei fandaleiddio - y clerc wedi cysylltu â Designer Signs ac yn disgwyl am bris ganddynt am ei atgyweirio. **Talysarn -** nodyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd yn cwyno bod wal ar Ffordd Bryn Celyn bron a disgyn ac yn bryderus am ddiogelwch plant wrth gerdded i'r ysgol ayyb. Adroddodd Cyng. Thomas bod hyn wedi ei adrodd i Gyngor Gwynedd yn barod, ond gofyn i'r Cyngor Cymuned hefyd godi'r mater gyda nhw. Y clerc i gysylltu â'r sefydliadau pwrpasol ar gyfer y materion hyn.

7. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. Nid oedd dim yn codi o'r daflen. Derbyniwyd cais gan Glwb Rygbi Caernarfon yn gofyn am gyfraniad ariannol. Trafodwyd y cais a adroddwyd eu bod yn gobeithio cael tua £750 gan bob Cyngor Cymuned yr oeddynt wedi cysylltu â nhw. Roedd Cyngor Llanllyfni wedi cyfrannu £5000 iddynt nôl yn 2024/25. Cynigwyd i aros a chael cyngor gan Gareth yn y cyfarfod nesaf i unai gyfrannu £750 neu i gymryd saib am eleni. Y mater i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Tachwedd. Derbyniwyd cais gan bwyllgor marchnad Nadolig maes awyr Caernarfon am arian a bu i Tesni Glyn adael y cyfarfod tra roedd y cais hwn yn cael ei drafod. Cynigwyd ac eiliwyd i wrthod y cais hwn gan eu bod o du allan y gymuned a pan fydd y clerc yn cysylltu â nhw am hyn yna dweud wrthynt yrru cais am gyfraniad eto cyn diwedd mis Ionawr 2026.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

8. **Gwaith Grant Gwynedd Ni** - roedd y clerc wedi cysylltu â Ffrindiau Penygroes i ofyn a fysai ganddynt ddiddordeb mewn gwirfoddoli i roi cymorth gyda'r gwaith ar gyfer y grant ac roeddynt wedi cytuno. Angen cael rhywun nawr i gyd-lynu'r prosiect. Cynigwyd ac eiliwyd i ofyn i Nigel Williams pe bai yn fodlon gwneud hyn. Y clerc i gysylltu gyda Nigel gan nad oedd yn bresennol heno i ofyn iddo.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** - **Mynwent Macpela -** adroddwyd bod y contractwyr torri gwair bellach wedi trin y tir yn y fynwent yn dilyn y difrod gan y brain yn tyrchu am y larfa oedd yno. Angen cadw golwg ar y fynwent nawr i wneud yn siŵr ei bod yn gwella ar ôl y difrod.

10. **Ceisiadau Cynllunio** - bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod am y drafodaeth hon.
- C25/0602/22/AC - Rhan o lain 8 a 9 Ystâd Ddiwydiannol Penygroes - DIM GWRTHWYNEBIAD
- C25/0688/22/LL – Sgwâr Petris Talysarn – DIM GWRTHWYNEBIAD
- Ymgynghoriad cais trwydded eiddo newydd Llwy a Mwy – DIM GWRTHWYNEBIAD

11. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis ac aethpwyd drwyddynt:-
- Torri coed mynedfa Taldrwst – bu i Tesni Glyn adael y cyfarfod am y drafodaeth yma – adroddwyd mai er gwybodaeth oedd hyn i'r Cyngor Cymuned. Y clerc i gysylltu i ofyn iddynt adael i ni wybod am unrhyw ddiweddariad.
- Partneriaeth Natur Gwynedd - cyllid ar gael i wella tir er budd natur - trafodwyd hyn ac nid yn meddwl y bydd o fudd.
- Grant Prosiect Perthyn - gofyn i'r clerc basio hwn ymlaen i Cwtin CBC er gwybodaeth a hefyd pawb o'r cyngor i'w rannu gydag unrhyw grwpiau y maent yn meddwl bysa yn medru ceisio am y grant.
- Yr Orsaf - tyfu bwyd lleol – bu i Justin Davies adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth hon. Cais gan Yr Orsaf yn gofyn a oes gan y Cyngor Cymuned dir a fyddai modd ei ddefnyddio ar gyfer tyfu bwyd. Trafodwyd ac nid oes gan y cyngor dir addas ar gyfer hyn.

12. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.
*- Nia Jones - ffôn a we = £25.00*

13. **Unrhyw fater arall** - gofynnwyd a oes modd archebu golau Nadolig newydd i Nebo a hefyd coeden i Dalysarn a choeden a golau i Nantlle. Cytunwyd yn unfrydol i'r clerc archebu'r rhain.

14. **Tir Cwtin** - bu i Justin Davies adael y cyfarfod am y drafodaeth hon. Nid oedd dim i'w adrodd ar y mater hwn y mis yma gan ein bod yn disgwyl am ymateb gan y cyfreithwyr yn dilyn yr ohebiaeth mis diwethaf.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 11 Tachwedd 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________